

HARRIS, JOSEPH (1704 - 1764), 'Assay-master at the Mint'

Enw: Joseph Harris
Dyddiad geni: 1704
Dyddiad marw: 1764
Priod: Anne Harris (née Jones)
Plentyn: Anna Maria Hughes (née Harris)
Rhiant: Susanna Harris (née Powell)
Rhiant: Howell Harris
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: 'Assay-master at the Mint'
Maes gweithgaredd: Economeg ac Arian; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
Awduron: Robert Thomas Jenkins, Llewelyn Gwyn Chambers, Evan David Jones

Mab hynaf Howel a Susannah Harris, Trefeca, a brawd i **Howel a Thomas Harris**. Bedyddiwyd ef yn Nhalgarth, 16 Chwefror 1703/4. Dygwyd ei fyny'n o dan Thomas Powell, frawd ei fam, ond aeth i Llandain yn 1724, a daeth i sylw Halley, y seryddwr brenhinol. Anfonwyd ef ar ddwy fordaith i India'r Gorllewin (1725, 1730-2) i brofi effeithiolrwydd offerynnau morwriaethol. Bu wedyn yn athro mewn teuluodd, ond yn 1737 penodwyd ef yn ddirprwy i'r 'profwr' yn y Bathdy (swydd a roddai iddo hawl i fyw yn Nhwr Llundain); ac yn 1748 codwyd ef yn brif brofwr ('Assay-master'). Cynhyrchoddyd lyfrau pwysig, megis *The Description and Uses of the Celestial Globe and Orrery*, 1729; aeth hwn i ddeg arg. erbyn 1768; *A Treatise on Navigation*, 1730; *An Essay upon Money and Coins*, 1757; *A Treatise upon Optics*, a gyhoeddwyd wedi ei farwolaeth, yn 1775.

Ssgrifennodd amryw o weithiau seryddol a mathemategol yn ddienw a dyfeisiodd y 'New Azimuth Compass' a'r 'Forestaff'. Cyngorodd lawer ar weinidogion y llywodraeth (heb fod hynny'n wybyddus oherwydd ei swillod) a derbyniodd bensiwn o £300 y flwyddyn gan y brenin yn 1753. Ef, i raddau helaeth, fu'n gyfrifol am safoni pwysau a mesurau'r deyrnas ganol y 18fed ganrif

Cadwodd ei gyswllt â'i deulu ac â'i fro; yn neilltuol, ymdrechodd yn ofer i 'ddysgu synnwyr' i'w frawd **Howel** - daeth yr holl ffورد i Drefeca i hebrwng **Howel** i Rydychen i ymaelodi yn y brifysgol; y mae 81 o'i lythyrau yng Nghasgliad Trefeca (L.I.G.C.) heb sôn am 49 o lythyrau **Howel** ato ef. Yr oedd yn un o hyrwyddwyr Cymdeithas Amaethyddol sir Frycheiniog, y gyntaf yng Nghymru, yn 1755. Cyfeirir ato ddwywaith yn Llythyrau'r Morysiaid (i, 183, a ii, 46 - noda'r diwethaf iddo roi gini i **Oronwy Owen**), a sonia llythyr arall gan **Richard Morris** (Y Cymmrordor, xlvi, 963) am ran Harris yn y gwaith o safoni pwysau a mesurau; yr oedd yn aelod o'r Cymmrordorion. Bu farw 26 Medi 1764, a chladdwyd yn Nhwr Llundain. Ei wraig (a fu farw ym Mai 1763) oedd Anne, ferch a chyddefodd ei gymydog gynt Thomas Jones o Dredwstan. Daeth eu merch, ANNA MARIA HARRIS, yn wraig i Samuel Hughes (un o dystion priodas **Elizabeth**, ferch **Howel Harris**); hyhi a etifedodd dyfoeth ei hewythr **Thomas Harris**, ac felly y daeth Samuel Hughes o'r Dregunter' yn sirfy Brycheiniog yn 1790. Cawsant ddwy ferch, Amelia Sophia a fu farw yr 1794, ac ELIZA ANNE HUGHES, a briododd ddwywaith. Ei gwr cyntaf oedd Roderick Gwynne, Buckland. Bu ef farw 20 Mawrth 1808, a phriododd hithau **William Alexander Maddocks**, 2 Ebrill 1818.

Awduron

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Dr Llewelyn Gwyn Chambers

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

M. H. Jones, *The Trevecka Letters, or the unpublished MSS. correspondence of Howell Harris and his contemporaries* (1932), 44-7

M. H. Jones, *Journal of the Welsh Bibliographical Society*, iii, 256-7 (gyda llyfryddiaeth)

M. H. Jones, *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, x, 80, xiii, 85-97

Journal of the Welsh Bibliographical Society, iii, 256-7

Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd, 13 (1928), 85

J. Thicksen, *Howel Harris yn Llundain neu gyfraniad Cymru i'r mudiad Methodistaidd yn y brifddinas* (1934), 9

R. Bennett, *Blynnyddoedd cyntaf Methodistiaeth* (1909), 37

Report from the Committee appointed to enquire into the original Standards of Weights and Measures (House of Commons 2 June 1758), 49 (12 April 1759), 7

R. T. Jenkins, 'Etifeddon Harrisiaid Trefeca,' *Y Traethodydd*, Cyf CXI (XXIX), 1961, tt.156-162

R. T. Jenkins, *Yng nghysgod Trefeca: Ysgrifau ar hanes crefydd a chymdeithas yng Nghymru yn y ddeunawfed ganrif* (Caernarfon 1968)

D. R. Hughes, *Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, xxiii, tt.18-21

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

X


Jenkins, R. T., & Chambers, Ll. G., & Jones, E. D., (1953). HARRIS, JOSEPH (1704 - 1764), 'Assay-master at the Mint'. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HARR-JOS-1704>

Copiarir
Copied

Preifatrwydd a Chwci
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



National
Library of
Wales
National
Assembly for
Wales
Welsh Government